Canllaw i'r cyhoedd i God Ymarfer Awdurdod Meinweoedd Dynol F: Rhoi organau solet a meinweoedd i'w trawsblannu (rhan dau: rhoi organau a meinweoedd ar ôl marw)

Ysgrifennwyd y canllaw hwn i'n rheoliadau rhoi organau a meinweoedd i gyfeirio at 'chi' fel rhoddwr posib sydd â diddordeb mewn rhoi eich organau a meinweoedd ar ôl eich marwolaeth. Mae'n seiliedig ar God Ymarfer F (Rhan Dau) ar gyfer rhoi organau a meinweoedd ar ôl marw HTA, sydd wedi'i anelu at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes rhoi a thrawsblannu organau:

Diweddarwyd rhan dau yn 2020 i gynnwys cyflwyno system newydd (y cyfeirir ati'n gyffredin fel system "optio allan" neu "gydsyniad tybiedig") ar gyfer rhoi organau a meinweoedd ar ôl marw yn Lloegr.

Mae Cymru wedi gweithredu o dan system gydsyniad tybiedig ar gyfer rhoi organau a meinweoedd ar ôl marw ers 2015.

Yng Ngogledd Iwerddon, nid yw cydsyniad tybiedig yn berthnasol; rhaid rhoi cydsyniad yn benodol bob amser gan y rhoddwr posib cyn ei farwolaeth, neu gan gynrychiolydd enwebedig neu berson mewn perthynas gymwys ar ôl ei farwolaeth (gweler Atodiad A isod).

Nid oes gan yr HTA rôl wrth reoleiddio rhoi organau a meinweoedd ar ôl marw yn yr Alban. Gallwch ddarllen rhagor am roi organau a meinweoedd yn yr Alban yma.

Heb ei Gwmpasu yn y Canllaw hwn

- Rhoi cyrff
- Rhoi organau a meinweoedd ar gyfer ymchwil

Termau a ddefnyddir yn gyffredin

Organau

Pan ddefnyddiwn y term organ, neu organau, yn y canllaw hwn, mae'n cyfeirio'n benodol at organ solet gyfan, neu organau, gan gynnwys:

- Aren
- Afu
- Calon
- Pancreas
- Ysgyfaint

Diffiniad cyffredinol o'r hyn sy'n cyfri fel organ yn y cyd-destun hwn yw rhan o'r corff sydd â phwrpas hanfodol penodol.

Meinweoedd

Lle rydyn ni'n defnyddio'r term meinweoedd, mae hyn yn cyfeirio at ran/rhannau amrywiol eraill o'r corff dynol a ffurfiwyd gan gelloedd nad ydyn nhw'n organau solet cyfan.

Organau a Meinweoedd

Pan gyfeiriwn at "organau a meinweoedd", mae hyn er mwyn ei gwneud yn glir bod cyfuniad o'r ddau.

Cydsyniad Tybiedig

Yng Nghymru a Lloegr, gellir ystyried pobl 18 oed a hŷn fel rhoddwyr organau a meinweoedd posib ar ôl marwolaeth, oni bai eu bod yn gwneud penderfyniad nad ydyn nhw am fod yn rhoddwr. Mae hefyd yn bosib enwebu cynrychiolydd i wneud y penderfyniad hwn ar eich rhan ar ôl marwolaeth.

Ni fydd hyn yn berthnasol os ydych chi'n "oedolyn eithriedig" (gweler **Gwybodaeth ac Adnoddau Pellach** isod i gael rhagor o wybodaeth).

Rôl yr HTA

Mae'r HTA yn rheoleiddio rhoi organau, meinweoedd a chelloedd (ac eithrio celloedd atgenhedlu), ac yn darparu cyngor ac arweiniad am y gyfraith.

Mae system o gydsyniad tybiedig ar gyfer rhoi organau a meinweoedd ar ôl marwolaeth yn weithredol yng Nghymru a Lloegr. Nid yw hyn yn effeithio ar reoliad yr HTA o roi organau byw.

Rhan 2 - Rhoi organau a meinweoedd ar ôl marwolaeth

Dim ond at roi organau a meinweoedd ar ôl marwolaeth yng Nghymru a Lloegr y mae'r canllaw cyhoeddus hwn yn cyfeirio

Ym mis Mai 2020, newidiodd y gofynion cydsynio ar gyfer rhoi organau a meinweoedd ar ôl marw yn Lloegr i'r hyn y cyfeirir ato'n gyffredin fel system “optio allan”. Yng Nghymru, mae'r system hon wedi bod ar waith ers 2015.

Yr hyn y mae hyn yn ei olygu yw, lle na chofnodwyd unrhyw benderfyniad i optio i mewn neu optio allan o roi organau a meinweoedd, ac nad yw penderfyniad yn hysbys, gellir tybio cydsyniad (hynny yw, gellir tybio y byddai unigolyn wedi cytuno i roi). Gellir defnyddio organau a meinweoedd ar gyfer trawsblannu ar ôl marwolaeth mewn rhai amgylchiadau. Bydd sgwrs bob amser gyda theulu a ffrindiau agos yr unigolyn sydd wedi marw (gweler **Atodiad A - Perthynas Gymwys** isod, i gael gwybodaeth am bwy y gallai hyn fod).



Optio i mewn i roi organau a meinweoedd

Mae'r HTA yn gyfrifol am ddarparu arweiniad ar yr hyn sy'n cyfrif fel cydsyniad cyfreithlon.

Rhaid bod cydsyniad ar waith i alluogi rhoi organau a meinweoedd yn gyfreithlon, ond nid yw'n golygu bod yn rhaid rhoi lle mae cydsyniad yn ei le. Mae hwn yn benderfyniad clinigol lle mae'ch teulu'n chwarae rhan hanfodol.

Yn ystod eich bywyd, gallwch gydsynio i roi mewn sawl ffordd:

- Y ffordd fwyaf cyffredin o wneud hyn yw trwy gofrestru eich penderfyniad ar y Gofrestr Rhoddwyr Organau (ODR), sy'n cael ei rhedeg gan Waed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHSBT). Mae hyn yn cael ei wirio ym mhob achos lle mae rhoi organau a meinweoedd yn bosibilrwydd.

- Rhannwch eich penderfyniad gyda'ch teulu a'ch ffrindiau.

- Gallwch hefyd gyrchu'r ODR i gofnodi'ch penderfyniad trwy Ap y GIG.

- Gallwch enwebu cynrychiolydd i wneud penderfyniad ar eich rhan ar ôl eich marwolaeth (darllen rhagor yma).

Gallwch dynnu'ch cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg. **Sylwch -** ni ellir tybio cydsyniad at ddibenion fel ymchwil; mae hyn y tu allan i gwmpas cydsyniad tybiedig. Ceisir cydsyniad penodol bob amser.

Beth mae fy nghydsyniad yn ei gwmpasu?

Gallwch gydsynio i roi eich holl organau a meinweoedd i'w rhoi ar ôl eich marwolaeth, neu gallwch nodi pa organau a meinweoedd rydych chi'n cydsynio i'w rhoi.

Ni allwch nodi math penodol o berson yr ydych am ei roi iddo. Weithiau, hyd yn oed pan fydd cydsyniad ar waith, efallai na fydd yn bosib rhoi. Mae yna lawer o resymau pam y gallai hyn fod yn wir.

Optio allan o roi organau a meinweoedd

Yn ystod eich bywyd, gallwch optio allan o roi mewn sawl ffordd:

- Y ffordd fwyaf cyffredin o wneud hyn yw trwy gofrestru eich penderfyniad ar y Gofrestr Rhoddwyr Organau (ODR), sy'n cael ei rhedeg gan Waed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHSBT). Mae hyn yn cael ei wirio ym mhob achos lle mae rhoi organau a meinweoedd yn bosibilrwydd.
- Rhannwch eich penderfyniad gyda'ch teulu a'ch ffrindiau.
- Gallwch hefyd gyrchu'r ODR i gofnodi'ch penderfyniad trwy Ap y GIG.
- Gallwch enwebu cynrychiolydd i wneud penderfyniad ar eich rhan ar ôl eich marwolaeth (darllen rhagor yma).

Os gwnewch yn hysbys nad ydych yn cydsynio i roi organau a meinweoedd, ni all ddigwydd.

Gwybodaeth ac Adnoddau Pellach

Organau heb eu cynnwys o dan gydsyniad tybiedig

Ni ellir tybio cydsyniad ar gyfer rhai organau a meinweoedd a byddai angen ceisio cydsyniad penodol. Gallwch weld y rhestr o organau a meinweoedd sydd angen caniatâd penodol ar wefan HTA yma.

Grwpiau Eithriedig (pobl na ellir tybio eu cydsyniad yng Nghymru neu Loegr)

Ni ellir tybio cydsyniad o dan yr amgylchiadau a ganlyn:

- Mae'r person sydd wedi marw yn blentyn o dan 18 oed;
- Mae'r person sydd wedi marw yn oedolyn **nad oedd wedi bod yn breswylydd fel arfer** am gyfnod o 12 mis o leiaf yn union cyn marw, neu;
- Mae'r person sydd wedi marw yn oedolyn **nad oedd ganddo'r gallu** i ddeall y syniad o gydsyniad tybiedig am gyfnod sylweddol cyn ei farwolaeth.

Ffydd a Chred

Bydd trafodaethau gyda'ch teulu yn digwydd cyn i unrhyw rodd ddigwydd - hyd yn oed os ydych chi wedi cofnodi'ch penderfyniad i optio i mewn i roi organau a meinweoedd.

Bydd y trafodaethau hyn yn ystyried eich ffydd a'ch credoau, boed yn ddiwylliannol, ysbrydol, crefyddol neu anghrefyddol. Mae'n bosib y bydd gan ysbytai hefyd gydlynwyr sydd wedi'u hyfforddi mewn ffydd, gwasanaeth caplaniaeth sy'n cynrychioli gwahanol gredoau, neu ofalwyr bugeiliol anghrefyddol achrededig, sy'n helpu i gefnogi teuluoedd.

Os byddwch chi'n cofrestru'ch penderfyniad ar yr ODR, gallwch ofyn i'ch teulu siarad â nhw ynglŷn â sut y gall rhoi organau a meinweoedd ddigwydd yn unol â'ch ffydd neu'ch credoau.

Mae rhagor o wybodaeth am gred a ffydd grefyddol mewn perthynas â rhoi organau a meinweoedd ar wefan GIG BT yma: https://www.organdonation.nhs.uk/helping-you-to-decide/your-faith-and-beliefs/.

Atodiad A - Perthynas gymwys

Mae Deddf Meinweoedd Dynol 2004 yn cynnwys rhestr o berthnasoedd ‘cymwys’, sy’n cael eu rhestru o ran blaenoriaeth.

Mae'r rhestr fel a ganlyn:

1. Priod neu bartner (gan gynnwys partner sifil neu'r un rhyw)
2. Rhiant neu blentyn
3. Brawd neu chwaer
4. Neiniau neu deidiau neu wyrion
5. Nith neu nai
6. Llystad neu lysfam
7. Hanner brawd neu hanner chwaer
8. Ffrind hir dymor

At y dibenion hyn, mae person yn cael ei ystyried yn bartner os ydynt yn byw fel partneriaid mewn perthynas deuluol barhaus.